


HAF 2025
RHIFYN 32
ubc.cymru

UBC
BUW


# Y Negesydd

Galwad i'r gymuned

Dyfodol newydd i adeiladau capel

Y Diwygiad Tawel

*a mwy...*



# CYNNWYS

RHIFYN 32


1 Clawr
2 Gair Golygyddol
3 Cenhadaeth: Diwygiad Tawel?
4 Dyfodol newydd i adeiladau capel
5 Galwad i'r gymuned
6 Newyddion UBC
7 Newyddion ar draws y byd
8 Dod i nabod... Bethan a Richard Jones



*Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater*


# GAIR *golygyddol*

HAF 2025

*""Paid ag ofni, oherwydd gwaredaf di; galwaf ar dy enw; eiddof fi ydwyt."*

*Eseia 43:1*

Mae'r adnodau hyn yn wreiddiol yn **eiriau o gysur** a siaradodd Duw trwy'r proffwyd Eseia i bobl Israel ar adeg o fygythiad a dryswch. Roedd ymerodraeth nerthol Assyria yn bygwth, ac eto roedd y bobl yn gyfarwydd ag addewidion Duw i ddarparu Meseia, a gwarediad iddynt. Fel Cristnogion yng Nghymru dros ddegawdau lawer rydym wedi gwybod rhywfaint o'r un tensiwn. Rydym wedi glynu at y cysuron niferus y mae Duw wedi'u rhoi i ni, hyd yn oed wrth i newidiadau mawr o fewn ac oddi allan i'r eglwys arwain at deimladau o fygythiad a phryder.

Mae **cynadleddau blynyddol** UBC yr haf hwn wedi adleisio cynhadledd Gweinidogion mis Chwefror wrth seinio nodyn o sicrwydd yn erbyn y cefndir yna. Fel yr ydym yn myfyrio yng Ngholofn Cenhadaeth y rhifyn hwn (gw. tudalen 3), ers rhifyn diwethaf Y Negesydd mae'r arwyddion o newid ysbrydol ar y gweill wedi cynyddu. Adlewyrchwyd hynny yn y newyddion am Fedyddiadau'r Pasg (tudalen 6) ac ym mhrofiad y Botwoods gyda chapel Beulah yn Sir Faesyfed (tudalen 5). Rydym hefyd bellach yn gweld egin gwyrdd yn tyfu o'r gwaith caled y mae llawer wedi'i wneud yng Nghorfforaeth UBC, gyda dyfodol newydd o fewn y teulu Bedyddiedig ar gyfer nifer cynyddol o'n hadeiladau capeli hanesyddol (tudalen 4).

Yn olaf, rydym yn dod â straeon am **ddyfalbarhad yn yr eglwys** fyd-eang (tudalen 7) ac yn dod i adnabod ffydd dau o hoelion wyth Cymanfa Dinbych, Fflint a Meirion ar dudalen 8.

Croeso i bawb i **oedfa goffaol flynyddol** Undeb Bedyddwyr Cymru yn **Ilston**, Gŵyr. Dyma leoliad plannu eglwys gyntaf y Bedyddwyr yng Nghymru yn 1649 fel rhan o fudiad ehangach o blannu eglwysi Bedyddiedig.

Cynhelir yr Oedfa eleni **wrth adfeilion Eglwys Ilston, Cwm Illtyd, Gŵyr**. Os bydd y tywydd yn anffafriol, yn Neuadd y Sgowtiaid (yr hen ysgol) gerllaw. Bydd yr Oedfa yng ngofal y Parchedig Rob Nicholls, gyda chefnogaeth a chyfraniad wrth eglwysi a gweinidogion lleol ac yn cychwyn am **2yh** ar ddydd Sadwrn Gorffennaf, 19eg 2025. Byddwn yn myfyrio ar thema 'Tarian Ffydd' eleni, a'r gwahaniaeth y mae ffydd yng Nghrist yn ei wneud yn ein bywydau.

Yn olaf, dyma estyn croeso cynnes i **bobl ifanc** i'r trydydd benwythnos *Esgyn* ym mis Tachwedd. Yn ddigwyddiad dwyieithog. deuddydd o hyd i bobl rhwng 11-16 oed, mae'r digwyddiadau cyntaf y llynedd wedi gosod seiliau addawol. Os oes yna bobl ifanc yn eich eglwys neu'ch teulu sydd heb gymryd y cyfle eto, gallant archebu lle nawr - trowch i dudalen 6 i ddysgu rhagor!

*Yng Nghrist,*

**Carwyn Graves** (Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu)

# CENHADAETH: *Diwygiad Tawel?*

*Yn rhifyn blaenorol Y Negesydd dyma ni'n rhoi lle yn betrus i adroddiadau am 'arwyddion y gwanwyn' a oedd fel petaent yn dod i'r amlwg ar draws y teulu Bedyddiedig yng Nghymru, wrth i eglwysi adrodd am fwy o fedyddiadau a phobl fel petaent yn fwy agored i ffydd Gristnogol nag am nifer o flynyddoedd...*

Mae'n ymddangos bod y patrwm hwnnw wedi ei gadarnhau gan adroddiadau gan enwadau eraill ar draws Ynysoedd Prydain, a chan arolwg gan Gymdeithas y Beibl a dderbyniodd sylw eang ac a gynhaliwyd ar y cyd â'r cwmni polau piniwn YouGov.

Prif ganfyddiad yr arolwg trawiadol hwn yw bod 'y trai o fewn eglwysi Cymru a Lloegr nid yn unig wedi dod i ben ond mae'r Eglwys bellach yn tyfu, wrth i genhedlaeth Gen Z (y sawl sy o dan eu 30) arwain troiad sawdl mewn mynychiad eglwys.'

Yr hyn sy'n arbennig o amlwg yw bod rhywfaint o hyn yn deillio o'r cenedlaethau iau, sydd ar y cyfan wedi eu magu heb gysylltiad ystyrlon â Christnogaeth ddiwylliannol. Ymddengys hefyd fod newyn am 'ryfeddrwydd' ffydd mewn byd llawn rhaglenni a sgriniau.

Mae'r ffenomen newydd hon wedi ei chroesawu gan gynnwrf ar y naill law a beirniadaeth ar y llall – fel y gallai hanes yr eglwys ein harwain i'w ddisgwyl!

> *"Mae'r ffenomen newydd hon wedi ei chroesawu gan gynnwrf ar y naill law a beirniadaeth ar y llall"*

Rhaid wrth ofal wrth gwrs, ond mae'r fethodoleg yma sy'n cynnwys arolwg o dros 13,000 o unigolion gan ddefnyddio dulliau trwyadl cwmni pleidleisio gwleidyddol yn golygu y gellir cymryd y canlyniadau hyn fel cefnogaeth o'r hyn y mae llawer ohonom yn ei weld ar lawr gwlad – nid heidiau a lluoedd, ond un a dau yn troi i fyny ac eisiau gwybod rhagor am Iesu Grist a'i newyddion da.

Fel y clywsom yn ein cynadleddau blynyddol Cymraeg a di-Gymraeg, ac fel y mae'r adroddiadau o Fedyddiadau'r Pasg (gweler yr adroddiad ar dudalen 6) ar draws eglwysi UBC yn tystio, rydym yn teimlo effeithiau'r ysbryd agored hwn o fewn i'n henwad.

.

Yng ngeiriau sylwebydd diweddar; 'Os bydd y "diwygiad tawel" yn ddim mwy na phobl yn chwilio am arogldarth neu sŵn band addoliad, eith heibio mewn fawr o dro, gan gynnig dim o sylwedd i'n hoes.' Mae yna nodyn sobr a defnyddiol yma y gallwn wrando arno. Ond nodyn gwahanol a drawodd Lynn Green, Ysgrifennydd Cyffredinol BUGB, wrth fyfyrio ar y newid hwn yn ein diwylliant, gan annog Cristnogion i " foli'r Arglwydd am y twf graslon yr ydym yn ei weld, gyda'n gilydd".

Beth bynnag a ddaw yn y tymhorau sydd i ddod, gallwn ni i gyd gael ein calonogi gan yr adroddiadau real iawn yn ein plith o bobl yn chwilio am Iesu ac yn dod o hyd i fywyd newydd ynddo. Dylai hyn ein sbarduno ni i gyd i ostyngeiddrwydd, i weddi – ac efallai hefyd i fod yn agored i'r annisgwyl wrth i'r Ysbryd Glân symud.





# Dyfodol newydd i **Adeiladau Capel...**

*‘Dyn ni ddim wedi gorfod mynd i chwilio am un tenant – maen nhw wedi dod aton ni,’ esbonia Christian Tucker-Williams, Uwch Gydlynydd Corfforaeth UBC. Ers rhai blynyddoedd bellach mae Corfforaeth UBC wedi bod yn dilyn strategaeth newydd pan fydd achos yn dod i ben ac adeilad capel, yn drist, yn colli’r eglwys a fu’n addoli yno. Erbyn hyn mae’r strategaeth yn dechrau dwyn ffrwyth, gydag enghreifftiau positif yn datblygu mewn gwahanol rannau o’r wlad.*

**Tabor, Cross Hands**

Roedd niferoedd yr aelodau’n disgyn yn eglwys Tabor, ac wrth ddechrau meddwl am y dyfodol fe gysylltodd yr eglwys yn gynnar yn y broses gyda’r Undeb. Aeth Christian i'w cyfarfod a’u helpu i ystyried gwahanol opsiynau o ran y ffordd ymlaen. Yn y pendraw, daeth yn amlwg yn yr achos hwn mai dod â’r achos i ben fyddai’r opsiwn orau - ond gwelwyd bod potensial i'r safle ac roedd yr aelodau am weld defnydd da newydd yn dod o’r adeilad, ac yn cefnogi staff yr Undeb i wneud y gwaith.

Ym mis Mehefin 2024 fe gymerodd Menter Iaith Cwm Gwendraeth Elli les 5 mlynedd ymlaen ar festri Tabor, a bwrw ati i greu hwb cymunedol, iaith Gymraeg yno gan dynnu’r gymuned i mewn i'r gwaith. Fel yr esboniodd Alaw, Rheolwr y Fenter, i ni, “Ni mor hapus yma. Ac mae wedi gweithio mor dda i blant a phobl ifanc – mae'r lle yn fishi bron bob dydd nawr!” Yn ogystal â gwasanaeth ‘Pryd ar Glud’ yn darparu bwyd ffres i bobl yn eu cartrefi yn y pentrefi cyfagos, mae yma sesiynau ioga yn y Gymraeg, clwb plant, theatr ieuenctid, ‘Mwncis Menter’ a llu o gymdeithasau lleol yn llogi’r lle – a rhieni’n ei ddefnyddio ar gyfer partïon.

“Be ni ‘di joio hefyd,” meddai Alaw wrth ddangos i ni’r Ardd Gymunedol sydd yn datblygu tu allan i'r festri, “yw bod gyda ni gyn-aelodau o’r eglwys oedd yn cwrdd yma’n dod yn rheolaidd fan hyn hefyd – mae'n lyfli eu bod nhw’n rhan o’r bennod newydd!” Wrth ddod i gytundeb gyda’r Fenter Iaith, fe sicrhaodd yr Undeb bod hyn a hyn o oriau’r wythnos o ddefnydd ar yr adeilad yn aros gyda theulu’r Bedyddwyr, ac rydym yn edrych i bosibiliadau creadigol at y dyfodol yno.








**Gorseinon – Seion Noddfa**

“Braint ac anogaeth oedd cael gwahoddiad i wasanaeth ailagor adeilad Seion – er gyda chynulleidfa eglwys newydd! Canlyniad hynny yw bod eglwys fwy yn rhoi tystiolaeth Gristnogol yng nghanol stryd fawr Gorseinon,” meddai Christian yn frwdfrydig. Eglwys a sefydlwyd yn wreiddiol fel merch-eglwys i Benuel, Casllwchwr oedd Seion Noddfa a hynny yn 1899. Crebachu oedd hanes y gynulleidfa, yn enwedig ar ôl cyfnod Covid, ac yn debyg i Tabor, fe benderfynodd yr eglwys estyn allan i'r Undeb i drafod y sefyllfa. Ystyriwyd yr holl opsiynau a gweddïwyd am y peth – a phenderfynodd yr aelodau eu bod yn derbyn arweiniad i ddychwelyd at y fam eglwys ac uno’r ddwy yn ffurfiol (gan greu eglwys Penuel Newydd).

Roedd hynny’n gadael safle hen eglwys Seion ar y stryd fawr – a welasai Billy Graham yn pregethu un tro ar ymweliad i Gymru! Roedd eglwys Riverside Christian Fellowship wedi bod yn addoli yn y Stiwt yng Ngorseinon, heb gartref ei hun. Digwydd bod i un o arweinwyr Penuel Newydd gyfarfod ag un o swyddogion Eglwys Riverside yn yr archfarchnad, ac fe arweiniodd hynny at y syniad annisgwyl o osod adeilad Seion ar brydles i eglwys Riverside. Maen nhw fel eglwys bellach yn cwrdd yno’n wythnosol ar y Sul, ac yn rhedeg gweithgareddau ganol wythnos hefyd.

**Eglwysi eraill**

Nid dyna’r unig enghraifft lle bu modd rhoi adeilad capel ar osod i gynulleidfa o enwad arall a oedd yn ddigartref. Nid nepell o Gorseinon yn nhref Pontarddulais roedd achos eglwys Y Babell wedi dod i ben, a’r eiddo wedi mynd i ofal Corfforaeth UBC. Clywodd eglwys Apostolaidd Carmel yn lleol am hyn a holi a fedrent rhentu’r gofod, gan ddod i gytundeb les 10 mlynedd gyda’r Gorfforaeth yn haf 2024. Mae trafodaethau tebyg eu natur yn digwydd ar hyn o bryd yng nghyswllt adeilad Zion, Llanwrtyd yn y canolbarth.

Fel mae Christian yn nodi, “Mae rhaid i ni gael defnydd da ar yr adeiladau hyn – falle fydd ddim modd i hynny fod yn eglwys bob tro, ond ein bod yn ail-ddefnyddio'r adeiladau hyn er mwyn y dyfodol a’r genhadaeth, a thrwy hynny datgloi’r buddsoddiad ac aberth ein cyn-dadau dros achos Crist heddiw!”



# GALWAD I'R GYMUNED

*"Fu erioed wahaniad yma rhwng yr eglwys a'r gymuned - mae llawer o bobl yn aelodau craidd o'r ddwy!" Ar ôl taith bywyd hir a rhyngwladol, mae Duw wedi arwain Tudor a Nicola Thomas-Botwood yn ôl i gymuned wledig Llidiart-y-waen ger Rhaeadr Gwy yng Nghanolbarth Cymru. Ac wrth iddyn nhw a'r eglwys weddïo ynghylch y camau nesaf yn eu rhan nhw o'r wlad, mae'n ymddangos bod y gair 'cymuned' wrth galon y peth...*

**Galwad yn ôl**

"Ces i fy magu yn yr ardal hon mewn teulu amaethyddol," eglura Tudor, "ond roedd ein gyrfaoedd mewn caplaniaeth gyda'r fyddin wedi mynd â Nicola a minnau i bob cwr." Pan gafodd ei fam ddamwain tua diwedd cyfnod Covid, daeth yn amlwg bod angen iddynt ddod o hyd i ffyrdd i'w chefnogi trwy fyw yn agosach iddi. Fel mae'n digwydd, roedd gofalaeth gyntaf Tudor ddegawdau cyn hynny wedi cynnwys Beulah, Llidiart-y-waen, a phan glywodd yr eglwys am y symudiad gwahoddwyd Nicola i gymryd oedfaon.

"Cyn hir roedd yr eglwys eisiau sgwrs gyda ni am weinidogaeth ar y cyd - ac roedd yn rhaid i ni ddweud wrthyn nhw nad oeddem yn barod am hynny eto," meddai Nicola gan chwerthin. "A dyma nhw'n dweud – 'rhowch wybod pan fyddwch chi te!'" Yn y pen draw, daethant i gytundeb â'r eglwys fach wledig hon, a chanddi ddeuddeg o aelodau, i ymroi fel cwpl i weinidogaeth ran-amser ar y cyd.

**Cymuned wledig**

"Mae'r ardal wedi newid yn gyflymach nag arfer ers cyfnod Covid," eglura Tudor, "mae gyda ni bobl yn y cylch nawr sy'n mynd yn ôl bedair neu bum cenhedlaeth - ac yna ar y llaw arall pobl sydd wedi bod yma ers dim ond pedair neu bum mlynedd." Ond mae'n ymddangos bod llawer o'r newydd-ddyfodiaid i ganolbarth Cymru yn dymuno ymuno â chymuned, ac mewn ardal fel hon dyw pwysigrwydd cymuned erioed wedi lleihau, mewn gwirionedd.



"Yr allwedd yw cymeryd rhan yn lleol," meddai Nicola. Ymunodd y ddau ohonynt yn gyflym â grwpiau a mentrau amrywiol yn yr ardal, gan gynnwys glwb rhedeg, cartref goal lleol, Ambiwlans Sant Ioan a gwaith mewn ysgolion. "Mae'n helpu'n aruthrol gyda chanfyddiad pobl o'r eglwys, ac mae popeth yn gysylltiedig mewn cymuned fel hon. Er enghraifft, gallwch chi gymryd gwasanaeth mewn ysgol gynradd un diwrnod, yna efallai y byddwch chi'n helpu mamgu un o'r plant hynny y nesaf trwy'r gwaith gyda Sant Ioan. Mae ein gweinidogaeth yn swyddogol yn rhan-amser, ac mae hynny'n rhoi amser i ni gymryd rhan mewn pethau eraill fel gwirfoddolwyr, nid dim ond fel 'gweinidogion'."

**Cymuned eglwysig sy'n tyfu?**

Mae'n amlwg bod traddodiad yn rhan gref o fywyd yr eglwys yn Beulah; capel bach hynafol yn y wlad yng nghanol y bryniau. Ond fel y dywed Tudor, "mae'r eglwys yn barod iawn i arbrofi. Mae'r gynulleidfa yn ymwybodol, rwy'n credu, ein bod ni'n gweinidogaethu mewn cyd-destun sy'n llawn cyfleoedd." Mae plant a gwaith ieuenctid yr eglwys wedi tyfu yn ddiweddar, a bob yn un neu ddau maen nhw'n gweld pobl newydd yn troi i fyny, yn edrych i ddysgu mwy am y ffydd. Dim ond un ystafell sydd ar gyfer y gwaith plant felly fel y mae Nicola yn nodi, 'dydyn ni ddim yn ceisio gwneud i bethau dyfu ormod!'

Dyma fyfyrio ar yr agwedd ysbrydol agored newydd o'u cwmpas – a beth mae hynny'n ei olygu nawr mewn eglwys sydd wastad wedi bod yn rhan allweddol o'r gymdeithas glos o'i chwmpas. "Does dim rhaid i ni feddwl, 'tybed sut mae cyrraedd y bobl hyn?'", meddai Tudor. "Cymerais angladd yn ddiweddar, ac roedd cwpl yno a dyma nhw'n gofyn i mi fynd i ymweld â nhw i siarad am y ffydd Gristnogol." Mae hynny'n amlwg yn rhan bwysig o'r ddeinameg, gyda phobl yn dod â'i gilydd i bethau'r eglwys.

"'Drychwch," gorffena Nicola, "yr eglwys sy'n arwain yma – neu'r Ysbryd Glân. A phan fydd wynebau newydd neu rai cyfarwydd yn troi i fyny, maen nhw'n teimlo'n gyfforddus yn ein plith. Mae croeso iddyn nhw! Duw sy'n gwneud y gweddill."

# NEWYDDION
## ar draws

## O'r Swyddfa

Mae swyddfa UBC **bellach wedi symud** o'r Llwyfan i Barc Dewi Sant - mae'r cyfeiriad wedi'i nodi ar y dudalen gefn.

Rydym yn falch iawn o **groesawu** Mrs Sioned Graves yn ôl wrth iddi ddychwelyd o absenoldeb mamolaeth, ac rydym yn falch y bydd Mr Carwyn Graves yn aros gyda ni yn rhan-amser yn cefnogi gwaith Cenhadaeth UBC.

Rydym hefyd yn croesawu Mrs Beci Jones fel aelod newydd o staff fel uwch-swyddog ym maes **cyllid**, a dechreuodd yn llawn amser ym mis Mehefin.

.





## Bedyddiadau'r Pasg

Cynhaliwyd llu o Fedyddiadau ledled Cymru dros benwythnos y Pasg. Dyma gipolwg o lond llaw o'r straeon hynny:

**Bethlehem, Spittal:** "Fe wnaethon ni gynnal gwasanaeth bedydd i ferch a gafodd ei magu yn yr eglwys. Daeth dau berson arall ymlaen ar ddiwedd y gwasanaeth eisiau cael eu bedyddio, felly byddwn yn ail-lenwi'r pwll eto cyn bo hir! Molwch yr Arglwydd!"

**Bethesda, Neyland:** "Rydym ni fel eglwys yn falch o allu rhannu newyddion am ein bedydd cyntaf yn ein heglwys ers rhyw 20 mlynedd! Mae'r gŵr arbennig hwn wedi bod yn chwilio trwy gydol ei oes am atebion. Cerddodd i mewn i'n heglwys ddwy flynedd yn ôl pan arweiniodd yr Ysbryd ef i chwilio am astudiaeth Feiblaidd ac i fod gydag eraill a oedd yn adnabod yr Arglwydd. Haleliwia a chlod i'r Arglwydd yn wir ei fod wedi cael ei newid, ei drawsnewid a'i eni o'r newydd."

**Eglwys y Bedyddwyr Johnston, Hwlffordd:** "Ar Sul y Mamau daeth dyn â'i gariad i'r eglwys a derbyniodd hi Iesu Grist fel ei Gwaredwr. Ac ar Sul y Pasg bedyddiwyd y ddau ohonynt. Maen nhw'n wynebu heriau, ond yn dysgu pwyso ar Iesu a'r gymdeithas eglwysig am gryfder a doethineb a thwf. Molwch yr Arglwydd!"

## Esgyn yn dychwelyd!

**Ar ôl croesawu criw o bobl ifanc i Dreharris ym mis Chwefror eleni, mae tîm Esgyn yn gyffrous i gyhoeddi y bydd ail benwythnos ieuenctid Esgyn yn digwydd ym mis Tachwedd eleni!**

Bydd Esgyn yn dychwelyd i Ganolfan Rock UK Summit Centre yn Ne Cymru o'r 21ain – 23ain o Dachwedd. Estynnwn groeso i **unrhyw un oed 11-16** i ymuno â ni mewn anturiaethau newydd eleni wrth i ni 'ddod ynghyd i dyfu mewn ffydd, ac esgyn mewn gobaith ar gyfer cenedlaeth newydd'!




Mae ffurflenni bwcio ar gyfer mis Tachwedd bellach yn fyw ar dudalen wê Esgyn. Cadwch eich lle nawr – byddwn yn cau cofrestriadau ym mis Medi neu'n dilyn 'cyntaf i'r felin!'. Gallwch gadw lle yma: www.ubc.cymru/esgyn Am fwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â thîm Esgyn trwy esgyn@ubc.cymru neu ddilyn tudalen Instagram a Facebook Esgyn.

# NEWYDDION ar draws y byd

## Plannu eglwysi yng nghanol rhyfel ym Mhalesteina

Daliwn ati i godi ein gweddïau er heddwch dros Balesteina ac Israel. Er bod y rhyfela'n dod â dioddefaint dyddiol ac er bod cymaint o fywyd wedi dod i stop mae'r eglwys yn sefyll yn ffyddlon.

Mae teuluoedd dewr sy' wrthi'n plannu eglwysi yn glynu at eu gwaith ac yn gwasanaethu'n anhunanol wrth ddod â goleuni i leoedd tywyll. Heddiw, rydym yn clywed wrth un o'r teuluoedd hyn y mae eu gweinidogaeth yn trawsnewid bywydau plant a chymunedau cyfan. Mae eu hymroddiad, hyd yn oed yn wyneb trais, yn dyst i bŵer yr Efengyl. Yng nghanol caledi, mae'r Eglwys yn parhau i dyfu - nid yn unig mewn niferoedd, ond **mewn ffydd, gobaith a chariad**.

Dyma ddau o'r arweinwyr, Basel a Gaida, yn esbonio: "Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd wythnosol, gan gynnwys cyfarfodydd **i blant, ieuenctid a menywod**, i'w cryfhau a'u sefydlu yn y ffydd. Rydym wedi wynebu erledigaeth a difenwi gan rai unigolion, sydd wedi effeithio ar y gwasanaethau ac wedi arwain at lai o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd, yn enwedig plant ac ieuenctid. Fodd bynnag, gyda chymorth Duw a'n ffydd ynddo, rydym yn dyfalbarhau. Rydym wedi teimlo ei bresenoldeb ac yn cael ein calonogi gan y ffrwythau rydyn ni'n eu cynaeafu yn Ei faes llafur.

Rydym yn parhau i wneud **ymweliadau cartref i annog** a chysuro teuluoedd yn eu ffydd. Mae ofn yn bresennol iawn yn y gymuned. Fodd bynnag, mae pobl yn agored i glywed Gair Duw. Maen nhw'n cael eu denu at astudiaethau Beiblaidd ac yn gofyn i ni ddychwelyd a thrafod yr Ysgrythurau gyda nhw."

*Stori lawn yn Saesneg ar wefan EBF: A Call to Unceasing Prayer and Unshakable Hope*





## Ton o Drawsnewid Cymunedol trwy'r Eglwys

Dros y blynyddoedd diwethaf mae rhannau mawr o'r eglwys yn y De byd-eang (h.y. yr hyn yr oeddem yn ei alw'n 'drydydd byd') wedi dechrau gweithio yn eu cymunedau lleol yn egnïol, gyda **gweledigaeth o genhadaeth** holistig. Fel y mae gweithwyr BMS yn Uganda yn esbonio, 'mae'n dechrau gydag astudiaeth Feiblaidd mewn eglwys leol... yna mae'r bobl yn chwilio am yr adnoddau y mae Duw wedi'u rhoi iddynt i drawsnewid eu teulu eglwysig a'u cymuned ehangach.'

Mae'r mudiad hwn, a elwir weithiau'n CCM fel talfyriad o 'church and community mobilisation', wedi tyfu i **dros 40 o wledydd** ledled y byd – y mwyafrif mewn ardaloedd o dlodi parhaus. Fel yr eglura elusen datblygu Cristnogol Tearfund, "mewn cymunedau ledled y byd, mae rhwydweithiau eglwysi yn cyrraedd y bobl fwyaf agored i niwed mewn ardaloedd na all elusennau rhyngwladol eu cyrraedd."

Trwy ymdrechion "gwaith CCM, mae'r eglwys leol yn gweithio gyda'i chymuned leol i adnabod ac ymateb i'w hanghenion gyda'i gilydd."

"Gall gwaith fel hyn fod yn arbennig o briodol mewn cyd-destunau **lle mae Cristnogion yn lleiafrif** ymylol heb lais yn y gymuned neu lle maen nhw'n ceisio codi llais proffwydol i newid strwythurau cymdeithasol."

# *Dod i 'nabod...*

# Bethan a Richard Jones, Glyn Ceiriog



Yn y rhifyn hwn o 'Dod i Adnabod', dyma wrando ar hanes Bethan a Richard Jones, sy'n weithgar iawn yn eu cymuned yn y Gogledd-Ddwyrain a bro'r Eisteddfod eleni...

**Hyfryd cwrdd â chi, Bethan a Richard! Allwch chi rannu gyda ni rywfaint o'ch teithiau ffydd?**

Bethan: Ges i fagwraeth capel ac eglwys hapus iawn, yn mynd i Ainon, Dolywern y Bedyddwyr ac i eglwysi o enwadau eraill hefyd gydag aelodau o'r teulu! Mae'r ysbryd eciwmenaidd yn gryf ynof i erioed yn yr ystyr yna.

Richard: Magwyd fi mewn teulu Cristnogol hefyd, a ches i 'medyddio o dan weinidogaeth Parch Gwilym Tilsley yn y Rhyl. Cefais fy annog i chwarae'r organ o oedran ifanc, ac mae'r emynau Cymraeg wedi bod yn ddylanwad arna i erioed. Cefais brofaid ehangach o ffydd pan yn fyfyriwr ym Manceinion, lle roedd cyfle i fynychu'r eglwys oedd yn rhan o'r neuadd breswyl.

**Rydych chi ynghlwm â phob math o bethau yn eich bro – allwch chi roi blas i ni?**

Bethan: Dwi'n ysgrifennydd bellach ar Gapel Unedig Seion, Glyn Ceiriog! Athrawes ydw i wrth fy ngwaith a dwi wedi mwynhau gweithio gyda phlant erioed. Dwi'n helpu gyda'r Eisteddfodau lleol, yn rhedeg Ysgol Sul yn ein capel ni a threfnu gwasanaethau teuluol.

Richard: Athro ydw i wrth fy ngwaith hefyd. Ges i arweiniad rai blynyddoedd yn ôl i hyfforddi fel pregethwr cynorthwyol ac ers hynny dwi'n gwasanaethu mewn eglwysi ar draws pob enwad ac yn cael boddhad wrth wneud. Dyna i chi'r nodyn eciwmenaidd gyda ni eto!

**Beth sy'n codi eich calon o fis i fis o ran eich ffydd?**

Bethan: Efallai mai'r cydweithio sy gyda ni o ran pethau'n lleol. Mae yna dîm ynghlwm â'r gwaith, pobl â galluoedd gwahanol yn cyfrannu, a hynny'n wir am ein hoedfaon a'r Ysgol Sul – er nad oes yna ddim gweinidog gynnon ni. 'Swn i'n dweud bod ffyddlondeb yr aelodau wir yn codi calon. Gobeithio wrth hau hadau y daw i ffrwyth maes o law!

Richard: Ar hyn o bryd dwi wir yn edrych ymlaen at y fraint o gael chwarae'r organ yng Nghymanfa Ganu Eisteddfod Wrecsam ym mis Awst! Mae hynny'n cau pen y mwdwl hyfryd i mi gan fod Gwynfor Jones, fy athro organ cyntaf, o gapel fy magwraeth wedi gwneud hynny yn Steddfod Y Rhyl 1985. Dwi wedi 'nhrwytho a dweud y gwir yn y traddodiad emynyddol – Cymraeg a thu hwnt (Bach ayyb). Mae yna drysorau yno ac mae'n rhoi dimensiwn arall ar fy ffydd i mi, sy'n bwysig iawn.

**Diolch yn fawr i chi eich dau, a phob bendith ar eich gwaith diwyd ac ar fywyd Eglwys Unedig Seion Glyn Ceiriog.**

**Cysylltwch â ni!**
0345 222 1514
post@ubc.cymru
Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HG